# Dynodi Dyfroedd Ymdrochi:

# Canllaw i Awdurdodau Lleol

## Cynnwys

Y Rhaglen Dŵr Ymdrochi yng Nghymru .......... 2

Rhaglen Dŵr Ymdrochi yng Nghymru .......... 2

... Ceisiadau a dynodi dŵr ymdrochi .......... 2

Ceisiadau - Cefnogaeth, Diogelwch, ac Ansawdd Dŵr .......... 2

Proses ddynodi .......... 2

Dyletswyddau'r Awdurdod Lleol mewn dyfroedd ymdrochi dynodedig .......... 3

Arwyddion Dŵr Ymdrochi .......... 3

Digwyddiadau llygredd .......... 4

Digwyddiadau llygredd tymor byr (Rhagolygon risg llygredd) .......... 4

Sefyllfaoedd annormal .......... 5

Gorfodi .......... 5

Atebolrwydd Awdurdod Lleol mewn dyfroedd ymdrochi .......... 6

Rhagor o wybodaeth .......... 6

Atodiad 1 .......... 7

## Y Rhaglen Dŵr Ymdrochi yng Nghymru

Mae'r ddogfen hon wedi'i drafftio ar gyfer awdurdodau lleol. Os mai'r awdurdod lleol yw'r tirfeddiannwr hefyd, dylid cyfeirio at y canllawiau tirfeddiannwr hefyd.

Nod y Rhaglen Dyfroedd Ymdrochi yw diogelu iechyd ymdrochwyr rhag llygredd bacteria a rhoi gwybodaeth i'r cyhoedd er mwyn iddyn nhw allu gwneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar wybodaeth ynghylch ble a phryd i ymdrochi.

Bob blwyddyn, mae Llywodraeth Cymru yn derbyn ceisiadau i ddynodi mannau ymdrochi poblogaidd ledled Cymru yn ddyfroedd ymdrochi o dan Reoliadau Dŵr Ymdrochi 2013 fel y'u diwygiwyd gan y Rheoliadau Dŵr Ymdrochi 2025 (y Rheoliadau). Gall ceisiadau gael eu cyflwyno gan unigolion, grwpiau, busnesau, awdurdodau lleol, neu drydydd partïon eraill. Mae'r Rheoliadau yn gosod meini prawf ar gyfer dynodiad dyfroedd ymdrochi, y mae'n rhaid eu bodloni er mwyn i gais gael ei ystyried. Mae'r meini prawf hyn yn sicrhau bod iechyd y cyhoedd a'r amgylchedd yn cael eu cydbwyso'n briodol.

Y meini prawf allweddol ar gyfer dynodi yw:

Y disgwyl y bydd nifer 'fawr' o bobl ymdrochi yno. Mae diffiniad Llywodraeth Cymru o 'nifer fawr o ymdrochwyr' wedi'i nodi yng nghanllawiau ymgeisio dŵr ymdrochi. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod 'nifer fawr' ar safle arfordirol yn golygu o leiaf 100 o ymdrochwyr y dydd a 50 ar safleoedd ar y tir *(*llynnoedd, afonydd a chronfeydd dŵr*).*

1. Rhaid i'r ymgeisydd gofnodi nifer yr ymdrochwyr ar o leiaf 20 diwrnod yn ystod tymor ymdrochi Cymru. O fewn y cyfnod hwn, rhaid cofnodi bod o leiaf 100 o ymdrochwyr am o leiaf 5 diwrnod ar safle arfordirol, ac o leiaf 50 o ymdrochwyr am o leiaf 5 diwrnod ar **safle** yn y tir**,** yn ystod cyfnod brig 4 awr.

2. Mae dynodiadau hefyd yn ystyried a yw presenoldeb nifer fawr o ymdrochwyr yn debygol o gael effaith andwyol sylweddol ar effeithiolrwydd unrhyw fesurau diogelu'r amgylchedd sydd ar waith yn, neu gerllaw, y dŵr wyneb.

3. Ystyrir a oes risgiau sylweddol i ddiogelwch corfforol yn y lleoliad, yn enwedig y risgiau hynny sy'n fwy na'r peryglon arferol sy'n gysylltiedig â nofio dŵr agored. Gall y risgiau hyn ddeillio o nodweddion penodol y safle.

4. Yn olaf, os yw ansawdd dŵr y safle yn debygol o gael ei ddosbarthu fel gwael ac nid yw'n ymarferol ei wella i safon ddigonol neu byddai'n gofyn am gost anghymesur o uchel, gall hyn effeithio ar ba mor addas yw dynodi'r safle.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn monitro ansawdd y dŵr mewn dyfroedd ymdrochi dynodedig yng Nghymru ar hyd y tymor ymdrochi. Bob blwyddyn ar ddiwedd y tymor ymdrochi, rhoddir dosbarth - 'rhagorol', 'da', 'digonol', neu 'wael' - i bob dŵr ymdrochi ar sail ansawdd ei ddŵr.

Fel y nodir yn y Rheoliadau, yr Awdurdod Lleol sy'n rheoli'r dŵr ymdrochi os yw tir y dŵr ymdrochi hwnnw wedi'i leoli o fewn ei ardal ac mae sawl dyletswydd statudol yn ymwneud â'i reoli, p'un a yw'r tir yn eiddo preifat neu beidio. Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu rheolaeth dros y tir na'r safle ei hun. Y perchennog preifat sy'n gyfrifol am hynny o hyd. Mae'r ddogfen hon yn ganllaw i Awdurdodau Lleol ynghylch eu dyletswyddau statudol mewn dyfroedd ymdrochi dynodedig sydd o dan eu rheolaeth.

## Ceisiadau a dynodi dŵr ymdrochi

**Ceisiadau – Cymorth, Diogelwch, ac Ansawdd Dwr**

Gall unrhyw un wneud cais i ddynodi dŵr ymdrochi. Rydym yn annog ymgeiswyr i weithio ar y cyd â'r awdurdod lleol pan fydd cais yn cael ei baratoi.

Wrth lunio cais, mae Llywodraeth Cymru yn gofyn i'r ymgeisydd ymgysylltu â'r awdurdod lleol a chadarnhau'r canlynol gyda'r awdurdod lleol drwy lythyr:

• os yw'r awdurdod lleol yn ymwybodol ac yn cymeradwyo'r bwriad i geisio dynodi'r safle fel dŵr ymdrochi, ac (lle bo hynny ar gael) am unrhyw wybodaeth ategol sydd ganddynt ynghylch a yw'r safle yn cael ei ddefnyddio gan nifer fawr o ymdrochwyr.

• A yw'r awdurdod lleol yn ymwybodol a yw'r safle yn destun cyngor yn erbyn ymdrochi, a bod ymdrochi ar y safle yn cael ei ganiatáu.

• a yw unrhyw nodweddion o'r safle yn peri risgiau sylweddol i ddiogelwch corfforol ymdrochwyr y tu hwnt i'r peryglon arferol sy'n gysylltiedig â nofio dŵr agored, ac a oes unrhyw ddamweiniau gan ymdrochwyr neu asesiadau risg wedi'u cofnodi sy'n cyfeirio at ymdrochi. Os oes gwybodaeth o'r fath, dylid ei rhannu gyda'r ymgeisydd.

• A oes gan y tîm iechyd amgylcheddol (neu dîm perthnasol arall) unrhyw bryderon sylweddol ynghylch ansawdd dŵr ymdrochi ar y safle. Dylai hyn gynnwys unrhyw fonitro sy'n berthnasol i ddyfroedd ymdrochi ar neu ger y safle yn ogystal ag unrhyw bryderon ynghylch cyanobacteria (algâu glas-wyrdd) neu adroddiadau salwch.

Cadwch unrhyw gyfathrebu ag ymgeisydd ynglŷn â chais posibl am ddŵr ymdrochi, oherwydd efallai y bydd angen i swyddogion Llywodraeth Cymru gadarnhau'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys mewn cais.

**Proses ddynodi**

Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn hysbysu'r Awdurdod Lleol yn ysgrifenedig pan fydd cais am ddŵr ymdrochi ar gyfer safle sydd wedi'i leoli o fewn eu ardal wedi'i dderbyn. Bydd yr hysbysiad hwn hefyd yn cadarnhau a yw unrhyw wybodaeth sydd wedi ei gyflwyno fel rhan o'r cais – yn enwedig cyfeiriadau at ymgysylltu â'r awdurdod lleol – yn gywir.  Bydd cais pellach am yr wybodaeth a restrir uchod yn cael ei wneud, os nad yw'r wybodaeth ar gael eisoes.

Bydd pob cais yn cael ei asesu gan Lywodraeth Cymru. Os yw'n ymddangos fod achos dros ddynodi o'r wybodaeth gychwynnol a ddarperir bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus, a bydd y canlyniadau yn cael eu hysbyried ochr yn ochr ag unrhyw dystiolaeth arall.  Mae'n bosibl y bydd yr Awdurdod Lleol yn cyfrannu at yr ymgynghoriad.  Yn dilyn yr ymgynghoriad, bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybod yn ysgrifenedig i'r Awdurdod Lleol beth oedd y penderfyniad o ran dynodi'r safle'n ddŵr ymdrochi. Cyhoeddir y penderfyniad hwn ar wefan Llywodraeth Cymru hefyd.

## Dyletswyddau Awdurdodau Lleol mewn dyfroedd ymdrochi dynodedig


### Arwyddion Dŵr Ymdrochi

Rhaid i Awdurdod Lleol sy'n rheoli dŵr ymdrochi, yn unol â Rheoliad 9, fynd ati i rannu gwybodaeth am y dŵr ymdrochi a sicrhau ei bod ar gael i'r cyhoedd yn ystod y tymor ymdrochi. Dylai'r wybodaeth fod ar ffurf arwydd wedi'i leoli mewn man hawdd ei gyrraedd yng nghyffiniau'r dŵr ymdrochi. Fe welwch enghraifft o arwydd dŵr ymdrochi yn Atodiad 1.

Rhaid i'ch arwydd ddarparu'r wybodaeth ganlynol:

1. Disgrifiad o'r dŵr ymdrochi yn seiliedig ar broffil CNC o'r dŵr ymdrochi, sydd i'w weld yma
2. Symbol dosbarth cyfredol y dŵr ymdrochi a gafwyd gan CNC (Ffigur 1). Os yw'n safle sydd newydd ei ddynodi, bydd CNC yn rhoi dosbarth dŵr ymdrochi iddo ar ôl i'r tymor ymdrochi cyntaf ddod i ben. Bydd angen ychwanegu symbol y dosbarth dŵr ymdrochi at yr arwydd cyn dechrau'r tymor ymdrochi nesaf
3. Os cynghorir yn erbyn ymdrochi oherwydd ansawdd dŵr gwael, dangosir hynny gan y symbol 'dim ymdrochi' (Ffigur 2)
4. Gwybodaeth am Ragolygon Risg Lleol o Lygredd
5. Cyfeiriad at wybodaeth fanylach a gyhoeddir gan CNC, sydd ar gael ym mhroffil y dŵr ymdrochi.

**Ffigur 1.**




**Ffigur 2.**




Mae'r uchod yn disgrifio'r gofynion lleiaf o ran yr arwyddion y gofynnir amdanyn nhw yn y rheoliadau. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod pob dŵr ymdrochi yn unigryw ac mae'n annog Awdurdodau Lleol i lunio'u harwyddion i weddu i'w safleoedd penodol, gan gynnwys unrhyw wybodaeth leol berthnasol, tra'n dal i fodloni gofynion y rheoliadau.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i hyrwyddo'r Gymraeg a sicrhau triniaeth gyfartal i'r Gymraeg a'r Saesneg wrth gyfathrebu â'r cyhoedd. O dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Safonau'r Gymraeg mae'n ofyn cyfreithiol i gyrff cyhoeddus, gan gynnwys awdurdodau lleol, ddarparu arwyddion dwyieithog. Mae hyn yn golygu y dylai'r holl wybodaeth gyhoeddus, gan gynnwys arwyddion dŵr ymdrochi, fod yn Gymraeg a Saesneg. Er nad yw Rheoliadau Dŵr Ymdrochi 2013 yn gofyn yn benodol am arwyddion dwyieithog, mae

cydymffurfio â deddfwriaeth Gymraeg yn hanfodol er mwyn sicrhau cynhwysiant a hygyrchedd i bob aelod o'r gymuned.

Os oes angen cymorth ar yr Awdurdod Lleol i ariannu arwydd ar gyfer dŵr ymdrochi, gellir cael mynediad at hyn drwy Grant Gwella Mynediad Llywodraeth Cymru. Dylai hyn fod ar gael i adran Hawliau Tramwy Cyhoeddus yr Awdurdod Lleol.

## Achosion o Lygru

Mae gan Awdurdod Lleol ddyletswyddau hefyd pan fydd yna achos o lygru. Mae achosion o lygru (digwyddiadau llygredd), yn ôl y Rheoliadau yn cynnwys:

- Halogiad gan enterococci'r coluddyn neu E.coli
- Cyanobacteria, macro algâu neu drwch o ffytoplancton morol
- Presenoldeb gwastraff (gan gynnwys gwydr, plastig, rwber neu weddillion tar)
- Unrhyw achos arall, ac eithrio achos o lygredd tymor byr, a allai ym marn yr Awdurdod Lleol, CNC neu ymgymerwr carthffosiaeth lleol beryglu ansawdd dŵr ymdrochi ac iechyd ymdrochwyr.

Gall CNC, ymgymerwr carthffosiaeth, perchennog y tir neu'r Awdurdod Lleol nodi achos o lygredd. Os bydd yr Awdurdod Lleol yn dod i wybod am achos o lygru, rhaid iddo wneud y canlynol yn brydlon, neu ar unwaith os oes cyanobacteria:

1. Rhoi gwybod i CNC os oes angen
2. Rhoi gwybod i'r ymgymerwr carthffosiaeth lleol os oes angen
3. Sicrhau bod gwybodaeth briodol yn cael ei rhannu â'r cyhoedd yn brydlon mewn man hawdd ei chyrraedd yng nghyffiniau'r dŵr ymdrochi
4. Cymryd unrhyw fesurau rheoli eraill fel y gwêl yn briodol i atal ymdrochwyr rhag dod i gysylltiad â pheryglon i iechyd hysbys neu dybiedig
5. Os gall, codi'r gwastraff o'r dwr.

## Achos o lygru tymor byr (Rhagolygon risg o lygredd)

Mewn rhai dyfroedd ymdrochi dynodedig, gyda chytundeb gan yr Awdurdod Lleol, gall CNC a'r awdurdod lleol gynhyrchu modelau cyfrifiadurol i ragweld achosion o lygru tymor byr. Bryd hynny, os rhagwelir y bydd ansawdd y dŵr yn wael, rhaid i'r Awdurdod Lleol roi gwybod i'r cyhoedd ar unwaith. Dylai'r wybodaeth fod ar ffurf arwydd wedi'i leoli mewn man hawdd ei gyrraedd yng nghyffiniau'r dŵr ymdrochi. Bydd CNC hefyd yn cyhoeddi'r wybodaeth ar broffil y dŵr ymdrochi ar-lein.

Rhaid i'r Awdurdod Lleol sicrhau bod yr arwydd yn cael ei ddiweddaru i gynnwys y wybodaeth ganlynol:

1. Cyngor yn erbyn ymdrochi ar ddiwrnodau pan ragwelir achos o lygru tymor byr neu os yw yno eisoes
2. Nifer y diwrnodau lle cafodd cyngor yn erbyn ymdrochi oherwydd llygredd tymor byr ei gyhoeddi ar y safle ymdrochi yn ystod y tymor ymdrochi diwethaf.

Er mwyn cael ei alw'n achos o lygru tymor byr, gall CNC (os ydynt yn dewis gwneud) gymryd sampl hefyd i gadarnhau bod y llygredd wedi para llai na 72 awr. Os bydd CNC wedi codi sampl o ddŵr ymdrochi yn y cyfamser fel rhan o’i raglen samplu reolaidd, caiff ei thynnu o’r set ddata i sicrhau bod dosbarth ansawdd blynyddol y dŵr ymdrochi yn adlewyrchu amodau arferol. Os na fydd yr Awdurdod Lleol wedi rhoi gwybod i'r cyhoedd drwy osod arwyddion

wrth y dŵr ymdrochi, ni fydd CNC yn cael diystyru'r samplau a gymerir y diwrnod hwnnw. Gall hyn arwain at newid dosbarth ansawdd diwedd blwyddyn y safle gan fod y samplau hyn wedi'u cynnwys.

## Sefyllfaoedd annormal

Mae Sefyllfa Annormal yn cyfeirio at ddigwyddiad neu gyfuniad o ddigwyddiadau sy'n effeithio ar ansawdd dŵr ymdrochi na fyddai CNC yn disgwyl iddynt ddigwydd, ar gyfartaledd, fwy nag unwaith bob pedair blynedd. Gallent fod yn ffactorau fel llygredd neu faterion amgylcheddol eraill. Unwaith y bydd CNC wedi datgan Sefyllfa Annormal mewn dŵr ymdrochi, bydd y datganiad yn para mewn grym nes i'r digwyddiad neu'r cyfuniad o ddigwyddiadau beidio ag effeithio ar ansawdd y dŵr ymdrochi.

Bydd CNC yn hysbysu'r Awdurdod Lleol pan fydd Sefyllfa Annormal yn cael ei datgan. Rhaid i'r Awdurdod Lleol osod arwyddion rhybuddio mewn man hawdd ei gyrraedd yng nghyffiniau'r dŵr ymdrochi i hysbysu'r cyhoedd am risgiau posibl, am faint y disgwylir iddynt bara a'r mesurau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r broblem.

Mae'n bwysig bod yr Awdurdod Lleol yn gweithio'n agos gydag CNC yn ystod Sefyllfa Annormal i nodi unrhyw newidiadau yn yr amodau ac i rannu gwybodaeth â rhanddeiliaid.

Caiff CNC atal unrhyw gynllun i fonitro dŵr ymdrochi neu ddiystyru samplau a gymerir yn ystod cyfnod y sefyllfa annormal.

## Mesurau rheoli ychwanegol mewn dyfroedd ymdrochi "gwael"

Ar ddiwedd pob tymor ymdrochi, mae CNC yn rhoi pob dŵr ymdrochi mewn dosbarth, yn seiliedig ar ansawdd ei ddŵr. Mae dyfroedd ymdrochi nad ydynt wedi cyrraedd safonau dŵr ymdrochi yn cael eu hasesu fel dyfroedd 'gwael'.

Bydd CNC yn rhoi gwybod i'r Awdurdod Lleol ar ôl y tymor ymdrochi os yw dŵr ymdrochi yn cael ei ddosbarthu fel dŵr gwael. Rhaid i’r awdurdod lleol:

1. Cynghori pobl i beidio ag ymdrochi yn y dŵr ymdrochi
2. Cymryd mesurau priodol i atal ymdrochwyr rhag dod i gysylltiad â llygredd yn y dŵr e.e. cyfyngiadau amser a/neu arbennig

Os bydd CNC yn asesu bod dŵr ymdrochi yn ddŵr 'gwael' am 5 mlynedd o'r bron, neu os bydd CNC wedi cynghori'r Gweinidog y byddai'n amhosibl neu'n anghymesur o ddrud i gyrraedd dosbarth 'digonol', gall CNC gyhoeddi cyngor parhaol yn erbyn ymdrochi.

Yn dilyn Rheoliadau Dŵr Ymdrochi (Diwygio) (Cymru a Lloegr) 2025 yn hytrach na dadddynodi dŵr ymdrochi yn awtomatig ar ôl pum mlynedd yn olynol o gael ei ddosbarthu fel 'gwael,' bydd CNC fel yr awdurdod priodol nawr yn asesu ei botensial ar gyfer gwella. Yn seiliedig ar yr asesiad hwn, bydd CNC wedyn yn cynghori'r Gweinidog ynghylch a allai ganiatáu mwy o amser i alluogi'r dŵr i gyflawni dosbarthiad 'digonol', yn hytrach na dileu ei ddynodiad. Fel rhan o'r cyngor hwn, bydd CNC yn cysylltu â'r Awdurdod Lleol i gyfrannu at yr asesiad dichonoldeb.

Os oes cyngor parhaol yn erbyn ymdrochi wedi'i roi, bydd CNC yn hysbysu'r Awdurdod Lleol bod cyngor parhaol yn erbyn ymdrochi wedi'i roi ac nad yw'r safle'n ddŵr ymdrochi dynodedig mwyach. Pan fydd Awdurdod Lleol yn derbyn y cyngor hwn, rhaid iddo fynd ati i rannu'r wybodaeth ganlynol yn brydlon â'r cyhoedd ger y dŵr ymdrochi:

1. Bod cyngor parhaol wedi'i roi yn erbyn ymdrochi
2. Nid yw'r safle bellach yn ddŵr ymdrochi

3. Y rhesymau dros roi'r dosbarth ansawdd hwnnw.

## Mesurau Gorfodi

O dan y Rheoliadau, caiff Gweinidogion Cymru gymryd camau gorfodi os na fydd Awdurdod Lleol yn gwneud ei ddyletswyddau yn unol â'r Rheoliadau, yn enwedig o dan Reoliad 16 sy'n rhoi'r awdurdod i Weinidogion gyhoeddi hysbysiadau sy'n sicrhau cydymffurfiaeth. Mae arwyddion priodol a chywir mewn dyfroedd ymdrochi yn ddyletswydd statudol y mae'n rhaid i Awdurdodau Lleol gydymffurfio â hwy, yn ogystal â sicrhau bod yr arwyddion yn cael eu diweddaru pan fo angen (yn enwedig o dan ragfynegi risg llygredd).

O dan y Rheoliadau, rhoddir pwerau i Weinidogion Cymru gymryd camau gorfodi os yw person sy'n rheoli dŵr ymdrochi yn rhwystro awdurdod lleol rhag cyflawni ei rwymedigaethau yn sgil dynodi'r dŵr ymdrochi. Cynghorir Awdurdodau Lleol i roi gwybod i CNC os byddant yn dod ar draws unrhyw rwystr o'r fath wrth ysgwyddo eu dyletswyddau.

## Atebolrwydd Awdurdodau Lleol mewn dyfroedd ymdrochi

Mae'r hyn y mae'r awdurdod lleol yn atebol amdano yn cael ei nodi mewn dwy Ddeddf Seneddol. Mae Deddf Atebolrwydd Meddianwyr 1957 yn nodi bod yn rhaid i'r Awdurdod Lleol gymryd gofal rhesymol i sicrhau bod ymwelwyr a wahoddir neu a ganiateir i ddefnyddio'r tir yn rhesymol o ddiogel wrth wneud beth bynnag y gwahoddir nhw neu y caniateir iddynt ei wneud ar ei dir. Mae Deddf Atebolrwydd Meddianwyr 1984 yn estyn y ddyletswydd gofal i'r rhai nad ydynt wedi'u gwahodd, gan gynnwys tresmaswyr.

Os oes gan yr Awdurdod Lleol bryderon, gall ofyn ar ei gost ei hun i gorff achrededig gynnal asesiad risg ffurfiol.

Mae'r Rheoliadau Dŵr Ymdrochi yn caniatáu monitro a rheoli ansawdd y dŵr mewn mannau ymdrochi lle ceir nifer fawr o ymdrochwyr i sicrhau bod y mannau hynny'n bodloni safonau penodol o ran iechyd y cyhoedd. Nid yw'r Rheoliadau yn symud, addasu nac yn trosglwyddo unrhyw rwymedigaethau sy'n bodoli eisoes o dan Ddeddfau 1957 neu 1984.

Os nad yw'r Awdurdod Lleol yn glir beth yw ei gyfrifoldebau cyfreithiol am safleoedd penodol, dylai ofyn barn cynghorydd cyfreithiol proffesiynol.

## Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth am ddŵr ymdrochi penodol, ewch i [Dod o hyd i ddwr ymdrochi](). Mae hyn yn cynnwys canlyniadau profion diweddaraf a gwybodaeth arall sy'n cael ei diweddaru'n flynyddol. Bydd y ddolen hon yn dangos hefyd a yw'r dŵr ymdrochi yn defnyddio rhagolygon risg o lygru i ragweld achos o lygru tymor byr a ble i gael rhagor o wybodaeth.

Am gymorth pellach, cysylltwch â'r canlynol:

- Llywodraeth Cymru yn water@llyw.cymru
- Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

## Atodiad 1

Isod mae enghraifft o arwydd dŵr ymdrochi sy'n bodloni'r gofynion lleiaf am wybodaeth. Anogir Awdurdodau Lleol i addasu eu harwyddion i weddu i'w safleoedd penodol ac i gynnwys unrhyw wybodaeth leol berthnasol. Dim ond ar draethau sydd â rhagolygon risg o lygredd y mae angen gwybodaeth am ragolygon risg o lygredd.


# SAFLE DŴR YMDROCHI A ENWIR

Dŵr ymdrochi dynodedig lle mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n monitro ansawdd y dŵr o fis Mai i fis Medi.

**②Dosbarth Ansawdd Blynyddol Diweddaraf:**



**Da**
Ansawdd dŵr ymdrochi



**①Ansawdd dŵr ar SAFLE DŴR YMDROCHI A ENWIR**

Mae'r dŵr ymdrochi wedi'i leoli mewn bae crwm hir sy'n wynebu'r gogledd. Mae'r traeth yn draeth tywodlyd ar oleddf ysgafn gyda chlogwyni o glogfeini clai yn gefn iddo. Y tu ôl i'r traeth y mae'r dref, ac yna dir amaethyddol. Mae'r clogwyni yn rhan o'r SoDdGA a hefyd yn Ardal Cadwraeth Arbennig. Saif y pwynt samplu ansawdd dŵr gyferbyn â phen y ffordd sy'n mynd i lawr i'r traeth.

**④Rhagolygon risg o lygredd**

Mae'r dŵr ymdrochi hwn yn dod o dan y drefn llygredd tymor byr. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynnal rhagolwg dyddiol o'r risg o lygredd, yn seiliedig ar effeithiau glaw, gwynt a thymor . Mae'r ffactorau hyn yn effeithio ar lefelau bacteria o dda byw, carthion a draenio trefol sy'n cael eu golchi i'r môr trwy afonydd a nentydd ac ar sut maent yn gwasgaru. Pan fydd achos o lygru tymor byr yn debygol, cyhoeddir rhybudd risg o lygru, a dangosir rhybudd yn y dŵr ymdrochi hwn ac ar-lein. Ar ôl rhybudd risg o lygru, mae lefelau bacteria fel arfer yn dychwelyd i lefelau normal ar ôl diwrnod neu ddau, ond mae'n bosibl y gall rhybudd bara sawl diwrnod. Yn 2023 cyhoeddwyd 8 rhybudd risg o llygru yn y dŵr ymdrochi hwn.

**I GAEL RHAGOR O WYBODAETH:**

Gellir gweld manylion llawn y dŵr ymdrochi hwn, ei ddalgylch, gwybodaeth am yr holl ffynonellau llygredd posibl a sut y maent yn cael eu rheoli ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru: https://environment.data.gov.uk/wales/bathing-waters/profiles/

③pan fo'n briodol, unrhyw gyngor yn erbyn ymdrochi oherwydd ansawdd dŵr gwael